# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 2

STRATEGAETHAU CYMUNEDOL A CHYNLLUNIO CYMUNEDOL

*Strategaethau cymunedol*

### 41 Adolygiadau o strategaeth gymunedol

(1) Mae'r adran hon yn nodi'r broses y mae'n rhaid i strategaeth gymunedol gael ei hadolygu drwyddi.

(2) Rhaid i awdurdod lleol ac, yn ddarostyngedig i is-adran (3), ei bartneriaid cynllunio cymunedol—

(a) drwy gymryd i ystyriaeth unrhyw ddatganiad a gyhoeddwyd o dan adran 42(3) er y dyddiad y cafodd y strategaeth gymunedol ei llunio neu (yn ôl y digwydd) y dyddiad y cwblhawyd yr adolygiad diwethaf ohoni, bwyso a mesur i ba raddau—

(i) y mae'r amcanion strategaeth gymunedol, sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth, wedi'u cyrraedd;

(ii) os nad yw amcan wedi'i gyrraedd, y mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyrraedd yr amcan;

(b) yng ngoleuni'r pwyso a mesur o dan baragraff (a) ac unrhyw ffactorau eraill y bydd yr awdurdod neu bartner yn meddwl eu bod yn briodol, pwyso a mesur—

(i) a ddylid addasu'r amcanion strategaeth gymunedol;

(ii) a ddylid gosod amcanion newydd;

(iii) a ddylai'r disgrifiad yn y strategaeth o'r camau sydd i'w cymryd a'r swyddogaethau sydd i'w harfer er mwyn cyrraedd un o'r amcanion strategaeth gymunedol gael eu haddasu (p'un ai yng ngoleuni addasiad o amcan neu am unrhyw reswm arall);

(iv) pan fo'r awdurdod neu'r partner yn credu y dylai amcan newydd gael ei osod, pa gamau y dylid eu cymryd a pha swyddogaethau y dylid eu harfer er mwyn cyrraedd yr amcan.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2010. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 41 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Dim ond i faterion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau y mae dyletswydd partner cynllunio cymunedol o dan is-adran (2) yn ymestyn.

(4) Os caiff y gofyniad yn is-adran (5) ei fodloni, rhaid i awdurdod lleol, yn sgil y pwyso a mesur sy'n ofynnol o dan is-adran (2), ddiwygio'r strategaeth gymunedol ar gyfer ei ardal drwy wneud y cyfan neu unrhyw rai o'r canlynol—

(a) addasu'r amcanion strategaeth gymunedol;

(b) gosod amcanion newydd;

(c) addasu'r camau sydd i'w cymryd a'r swyddogaethau sydd i'w harfer er mwyn bodloni un o'r amcanion strategaeth gymunedol;

(d) disgrifio'r camau sydd i'w cymryd a'r swyddogaethau sydd i'w harfer er mwyn bodloni amcan newydd.

(5) Y gofyniad yw bod yr awdurdod o'r farn, mewn perthynas â diwygiad arfaethedig, bod maint y consensws ymhlith y partneriaid cynllunio cymunedol a'r awdurdod mewn perthynas â'r diwygiad yn golygu ei bod yn briodol gwneud y diwygiad.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo ddod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (4), gyhoeddi strategaeth gymunedol ddiwygiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 41 mewn grym ar 1.1.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 2, **Atod. 1**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2010. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 41 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.